

# Adnodd Dysgu Chwedlau Aesop Castell Coch

Cyfnod Allweddol 2  
Darllen & Llefaredd

AD  
G  
S  
Y  
D

# Adnodd Dysgu Chwedlau Aesop Castell Coch

## Adnodd Dysgu Chwedlau

### Cyflwyniad

Nod y pecyn hwn yw helpu athrawon i baratoi at ymweliad â Chastell Coch mewn modd creadigol, hyderus, llawn dychymyg, gan ganolbwyntio ar lythrennedd disgyblion.

Mae'r adnodd hwn yn cynnwys fersiynau syml a mwy cymhleth o 15 o Chwedlau Aesop, ynghyd â rhai darluniadau o lolfa Castell Coch.

Rydym yn annog athrawon i ddethol ac addasu'r deunyddiau i gyd-fynd ag anghenion y dosbarth a'r testun.

Gellir defnyddio'r lluniau sy'n cyd-fynd â'r adnodd hwn at ddibenion addysgol / dysgu. Mae croeso i chi eu hargraffu i'w harddangos yn yr ystafell ddosbarth yn ôl y gofyn.

### Cysylltiadau Cwricwlaidd – Fframwaith llythrennedd

**Darllen** – ymateb i'r hyn a ddarllenwyd, deall, ymateb a dadansoddi

**Llafaredd** – datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau – siarad, gwranddo, cydweithio a thrafod

### Trefnu Ymweliad

A wyddoch chi fod ymweliadau hunan-dywys â safleoedd Cadw ar gael yn rhad ac am ddim i grwpiau addysg sy'n mynychu sefydliadau addysg yn yr Undeb Ewropeaidd?

I archebu eich taith am ddim, dilynwch y camau syml hyn:

- Archebwch eich ymweliad o leiaf ddeg diwrnod gwaith o flaen llaw.
- Ffoniwch y safle i wirio os yw'r dyddiad yr hoffech ymweld ar gael. [cadw.wales.gov.uk](http://cadw.wales.gov.uk)
- Unwaith eich bod wedi cytuno ar ddyddiad ac amser gyda'r safle, cwblhewch y ffurflen archebu ar-lein yn [cadw.wales.gov.uk](http://cadw.wales.gov.uk)

Rydym hefyd yn cynnig gweithgareddau addysg rhyngweithiol, gyda chysylltiadau â'r cwricwlwm yng Nghastell Coch, gan gynnwys gweithgaredd llythrennedd yn seiliedig ar Chwedlau Aesop.

### Iechyd a Diogelwch

Mae athrawon ac arweinwyr grŵp yn gyfrifol am gynnal asesiadau risg cyn yr ymweliad, yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan awdurdodau addysg lleol. Rydym yn cynnig cyfleoedd i athrawon ymglyfarwyddo â'r safle am ddim er mwyn ysgrifennu'r asesiadau risg ac i gynllunio gweithgareddau cyn dod â grŵp i'r safle. Mae'r tudalennau dysgu ar wefan Cadw yn rhoi cyngor ar gyfer cynllunio eich ymweliad a gwybodaeth benodol am y safle.

Mae'r holl ddelweddau a ddarperir yn rhai gyda hawlfraint y Goron ac yn cael eu hatgynhyrchu gyda chaniatâd Cadw o dan awdurdod dirprwyedig HMSO.

Gellir defnyddio delweddau at y diben penodol y cawsant eu cyflenwi ar eu cyfer yn wreiddiol ac ni ddylid eu storio, na'u hail-ddefnyddio, at unrhyw ddiben arall.

Gwaherddir yn llym unrhyw ddefnydd arall o'r delweddau (gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i ddefnydd difenwol neu anwedus heb fod yn gysylltiedig ag addysg).

Mae ailwerthu neu ailddosbarthu unrhyw rai o ddelweddau Cadw yn cael ei wahardd yn benodol.

Mae ailwerthu neu ailddosbarthu unrhyw rai o ddelweddau Cadw yn cael ei wahardd yn benodol.

Mae defnyddio delweddau yn arwydd fod pob un o'r uchod yn cael eu derbyn



# Adnodd Dysgu Chwedlau Aesop Castell Coch

## Adnodd Dysgu Chwedlau

### Cyflwyno Chwedlau

Dyma straeon gyda neges foesol neu foeswers, sydd wedi cael eu defnyddio i ddysgu pobl ers miloedd o flynyddoedd. Roeddent yn arbennig o bwysig yn y cyfnod cyn y gallai pobl ddarllen ac ysgrifennu gan eu bod yn cael eu trosglwyddo ar lafar o genhedlaeth i genhedlaeth. Roeddent yn ffordd dda o ysgogi trafodaethau ynghylch sut i ymddwyn, a beth sy'n dda ac yn ddrwg.

Caethwas oedd Aesop, ac roedd yn byw yng Ngwlad Groeg yn ystod teyrnasiad y Brenin Croesus (560-547CC); treuliodd ychydig o'i fywyd yn y llys yn Athens. Mae disgrifiadau o Aesop yn awgrymu bod ganddo groen tywyll iawn, ac mae'n bosibl mai corrach eithriadol o hyll ydoedd. Awgrymwyd hefyd bod yr enw Aesop yn tarddu o'r gair Groegaidd am Ethiopia – Aethiop.

Mae nifer o'r chwedlau rydym yn eu galw heddiw yn Chwedlau Aesop wedi'u canfod ar bapurfrwyn Eifftaidd yn dyddio hyd at 800-1000 o flynyddoedd cyn amser Aesop.

Ni wyddom pryd ysgrifennwyd y chwedlau gyntaf, nac ychwaith ym mha iaith y'u hysgrifennwyd, ond gwyddom fod ysgolhaig Bysantaidd o'r enw Maximus Planudes wedi'u hysgrifennu yn iaith Groeg rhywbryd rhwng 1270 a 1330, a'i fod hefyd wedi ysgrifennu bywgraffiad o Aesop. William Caxton oedd y cyntaf i gyhoeddi chwedlau Aesop yn Saesneg yn 1484, o'i gyfieithiadau ef ei hun o'r fersiynau Ffrengig.

Mae'r adnodd hwn yn cynnwys fersiwn syml, sydd wedi ei farcio â eicon chastell glas tywyll, a fersiwn fwy cymleth, sydd wedi ei farcio â eicon chastell gwyrdd golau, o 12 o Chwedlau Aesop sydd wedi'u darlunio ar wiliau'r Lofa'r castell. Gellir eu defnyddio i ymgyfarwyddo â'r chwedlau cyn ymweliad, i ganfod y chwedlau ar y waliau yn ystod ymweliad, neu i ddatblygu llythrennedd yn dilyn ymweliad.



# Adnodd Dysgu Chwedlau Aesop Castell Coch

## Adnodd Dysgu Chwedlau

### Gweithgareddau cyn-ymweliad

Darllenwch y chwedlau i'r plant bob dydd am wythnos. Mae'r chwedlau yn fyr iawn, felly gellid eu darllen fwy nag unwaith. Gofynnwch i'r plant a oes yna unrhyw anifeiliaid yn y chwedlau nad ydynt wedi clywed amdanynt. Gallwch ymchwilio i'r anifeiliaid hyn fel bod y plant yn gwybod sut maen nhw'n edrych cyn ymweld â'r castell.

Unwaith mae'r plant yn gyfarwydd â'r chwedlau, gadewch iddyn nhw ddarllen y fersiwn argraffedig, a'u hymarfer i ddatblygu hyder ar gyfer eu darllen ar goedd i'w cyd-ddisgylion yn y castell.

Nid yw fersiynau syml y Chwedlau yn y pecyn hwn yn cynnwys negeseuon y straeon. Mae fersiynau mwy cymhleth y straeon yn cynnwys negeseuon/moeswersi a phwyntiau trafod ar ddiwedd pob stori. Gallech ddewis trafod negeseuon y straeon cyn, yn ystod neu ar ôl yr ymweliad. .

### Gweithgareddau yn ystod yr ymweliad

Ewch â'r dysgwyr i Lolfa'r castell. Gadewch iddyn nhw archwilio'r ystafell, a gofynnwch iddynt beth allan nhw ei weld ar y waliau a'r nenfwd. Allan nhw awgrymu beth yw thema'r ystafell?

### Gweithgaredd Blwyddyn 3 & 4

Gofynnwch i'r grŵp cyfan eistedd i lawr yng nghanol yr ystafell.

Rhowch deitl un o'r straeon i'r plant, a gofynnwch iddyn nhw geisio darganfod yr anifeiliaid yn y stori ar y waliau.

Darllenwch y stori i'r grŵp.

Gofynnwch i'r dysgwr os ydyn nhw'n gallu gweithio allan beth yw neges y stori.

Gofynnwch i'r dysgwyr ddweud wrthynt os ydyn nhw'n meddwl bod ymddygiad pob cymeriad yn y stori yn gywir neu'n anghywir.

Gallech hefyd ddefnyddio un neu fwy o'r pwyntiau trafod yn y fersiynau mwy cymhleth i ysgogi trafodaeth.



# Adnodd Dysgu Chwedlau Aesop Castell Coch

## Adnodd Dysgu Chwedlau

### Gweithgaredd Blwyddyn 5 & 6

Rhowch y dysgwyr mewn paruau neu grwpiau o dri, a rhowch daflen stori i bob pâr neu grŵp o dri.

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarganfod yr anifeiliaid yn eu stori ar y waliau. Pan fyddan nhw wedi darganfod eu hanifeiliaid, gofynnwch iddynt feddwl am eiriau sy'n aml yn cael eu defnyddio i ddisgrifio eu hanifeiliaid. Trafodwch gyda'r dosbarth os yw pobl yn 'stereoteipio' anifeiliaid trwy roi nodweddion penodol iddynt, e.e. llwynog cyfrwys, ci ffyddlon, gwenci anonest. A yw'r dysgwyr yn gallu awgrymu unrhyw stereoteipiau i'r anifeiliaid sydd wedi'u darlunio ar waliau'r Lolfa?

Gofynnwch i bob pâr neu grŵp ddarllen eu stori, meddwl am stereoteipiau anifeiliaid, a thrafod y neges a'r pwyntiau trafod yn eu pâr neu grŵp.

Gofynnwch i rai paruau neu grwpiau ddarllen eu stori i'r dosbarth, a rhoi crynodeb o'u safbwyntiau ar y neges a'r pwyntiau trafod. A yw gweddill y dysgwyr yn cytuno gyda'u safbwyntiau? Pam gredwch chi fod Aesop wedi defnyddio anifeiliaid yn y straeon, yn hytrach na phobl?

Dewisol – gallech ddilyn hyn gyda thrafodaeth am stereoteipio – a ydym yn stereoteipio mathau eraill o bobl, oherwydd eu rhyw, oedran, lliw croen, crefydd, gwisg neu iaith? A yw stereoteipio bob amser yn negyddol?

Trafodaeth dosbarth cyfan – a yw Chwedlau Aesop yr un mor berthnasol heddiw ag y buont erioed?

### Gweithgareddau ar ôl yr ymweliad

Gallai dysgwyr ymchwilio i Chwedlau Aesop, gan ddefnyddio'r rhyngwyd neu trwy edrych ar lyfrau.

Gallai dysgwyr gymharu chwedlau, damhegion a straeon moesegol eraill, gyda Chwedlau Aesop.

Gallai disgyblion drafod a oes arnom angen straeon moesegol newydd i'r byd modern, a fyddai'n rhoi sylw i dechnoleg newydd?

Gallai disgyblion ysgrifennu eu straeon eu hunain gyda moeswers, a'u darlunio.



# Adnodd Dysgu Chwedlau Aesop Castell Coch

## Adnodd Dysgu Chwedlau

### Chwedlau Aesop Castell Coch

Mae'r 15 chwedl gyntaf yn yr adran hon wedi'u hysgrifennu mewn iaith syml, ac nid ydynt yn cynnwys moeswersi.

Maen nhw'n addas ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 3 a 4, darllenwyr hŷn is eu gallu, neu i'w defnyddio mewn gweithgareddau lle mae'r disgyblion yn awgrymu'r moeswersi eu hunain.

Yr un rhai yw'r ail set o 15 chwedl yn yr adran hon ond wedi'u hysgrifennu mewn iaith fwy cymhleth ac yn cynnwys y moeswersi. Maen nhw'n addas ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 5 a 6, dysgwyr Blwyddyn 4 uwch eu gallu, neu i'w defnyddio mewn gweithgareddau lle mae'r disgyblion yn trafod perthnasedd y moeswersi yn y byd modern.

O waliau ystafell groeso castell Coch y daw'r delweddau ac maen nhw'n ddarluniadau o ddeuddeg o'r chwedlau



## Y llygoden fawr a'r broga

Un tro, gofynnodd llygoden fawr i froga ei helpu i groesi afon.

Atebodd y broga y byddai'n helpu, a dywedodd wrth y llygoden fawr i ddringo ar ei gefn.


Clymodd y broga ei goes ef i goes y llygoden fawr gyda darn o llyn. Dywedodd y byddai hynny'n ei rhwystro rhag cael ei chario ymaith pe byddai'n syrthio o'i gefn tra oeddent yn croesi'r afon.

I ffwrdd â nhw ar draws yr afon, ond pan oeddent yng nghanol yr afon, plymiodd y broga i waelod yr afon. Cafodd y llygoden fawr ei thynnu dan y dŵr ac fe foddodd.

Dechreuodd y broga nofio i'r lan, gan lusgo'r llygoden fawr farw tu ôl iddo. Cyn iddo gyrraedd glan yr afon, daeth hebog mawr uwch ei ben a chipio'r llygoden fawr allan o'r dŵr.

Roedd y broga dal wedi'i glymu i'r llygoden fawr felly cafodd ef ei godi i'r awyr hefyd.

Pan laniodd yr hebog i fwyta'r llygoden fawr, gwelodd fod y broga wedi'i glymu i'r llygoden fawr, a phenderfynodd fwyta'r ddau ohonyn nhw.



## Y gwningen, y wenci a'r gath

Un tro, roedd cwningen yn byw mewn twll cwningen cysurus yn y ddaear. Bob bore, byddai'n mynd allan i chwilio am fwyd yn y caeau ger ei chartref.

Un diwrnod, aeth gwenci i mewn i'r twll cwningen tra oedd y gwningen allan yn chwilio am fwyd. Ar ôl archwilio'r lle, penderfynodd y wenci y byddai'n lle diogel i fyw, a dechreuodd wneud ei hun yn gysurus.

Ar ôl dychwelyd, ceisiodd y gwningen fynd i mewn i'r twll, ond nid oedd y wenci am adael iddi wneud hynny. Roedd y gwningen yn flin a dywedodd wrth y wenci am adael y twll, gan ddweud mai ei chartref hi oedd y twll yma.

Atebodd y wenci mai ei thwll hi oedd ef rwan, ac y byddai'n rhaid i'r gwningen adael.

Dechreuodd y gwningen a'r wenci gweryla gan alw enwau ar ei gilydd. Cyn hir, roedd y ddwy yn ymladd.

Roedd y gwningen yn fwy o lawer na'r wenci, a gallai gicio'n galed; ond roedd y wenci yn gyflymach na'r gwningen, ac roedd ganddi hefyd ddannedd miniog. Wrth i'r ddau anifail ymladd, dechreuodd y ddau sylweddoli nad oedd modd iddynt ennill yn llwyr er y gallent frifo ei gilydd.





Wedi llwyr ymlâdd, penderfynodd y wenci a'r gwningen ofyn i rywun arall farnu pwy ddylai fyw yn y twll cwningen.

Rhodddwyd y gwaith hwnnw i'r gath ddoeth. Dechreuodd y gwningen a'r wenci siarad ar draws ei gilydd, gan esbonio wrth y gath beth oedd y broblem. Gofynnodd y gath iddynt dawelu gan ddweud na allai glywed yn iawn beth oeddent yn ei ddweud.

Dywedodd y gath wrth y gwningen a'r wenci ei bod yn drwm iawn ei chlyw, a gofynnodd i'r ddwy agosáu fel y gallai eu clywed yn iawn.

Aeth y gwningen a'r wenci at y gath, ond cyn iddynt gael cyfle i eistedd, roedd y gath wedi cydio yn y ddwy a'u lladd yn syth.



## Y paun a'r biden

Un tro, roedd paun a oedd eisiau bod yn frenin ar yr holl adar.

Dangosodd ei blu ysblennydd i'r adar eraill, a'r holl liwiau yn ei gynffon odidog.

Roedd gan y paun ddawn siarad, ac roedd yn edrych yn hardd iawn.

Dywedodd wrth yr holl adar eraill am ei gynlluniau mawr i'r dyfodol, a dechreuodd yr adar feddwl y byddai'n gwneud brenin da iawn.

Ni chredai'r biden mai'r paun oedd yr aderyn gorau i fod yn frenin.

Dywedodd y biden wrth yr adar eraill: "Os ydym yn barnu pethau yn ôl eu golwg, yna dylai'r paun hardd fod yn frenin. Ond ai ef yw'r aderyn gorau i'n cadw'n ddiogel?"

Gofynnodd y biden i'r paun: "Beth fyddet ti'n ei wneud i'n cadw'n ddiogel pe byddai eryr neu gath yn dod i ymosod arnom?"

Ni wyddai'r paun beth i'w ddweud. Ni wyddai sut i gadw'r adar eraill yn ddiogel.



Dechreuodd yr adar eraill drafod a oedd y paun yn ddigon doeth i fod yn frenin arnynt.

Pwy tybed fyddai'r aderyn gorau i'w cadw'n ddiogel, a pha aderyn fyddai'n gallu datrys unrhyw anghytundeb?

Penderfynodd yr adar nad y paun oedd yr aderyn gorau i fod yn frenin, a dechreuon nhw drafod pa aderyn oedd yn ddigon doeth a chryf i fod yn well brenin.



## Y cathod a'r caws

Un tro, roedd dwy gath a oedd yn ffrindiau da.

Roedden nhw'n aml yn chwarae gyda'i gilydd ac nid oeddent erioed wedi cweryla.

Un diwrnod, gwelodd y cathod ddarn mawr o gaws.

Roedd y ddwy yn hoff iawn o gaws, ac felly penderfynon nhw rannu'r caws.

Doedden nhw ddim yn gallu cytuno sut i rannu'r caws yn deg, gan fod y ddwy gath eisiau darn mwy na'r llall.


Dechreuodd y cathod ymladd dros y caws yn lle ei rannu'n deg.

Gwelodd mwnci craff y ddwy gath yn ymladd a dywedodd y byddai e'n rhannu'r caws yn deg rhyngddynt.

Torrodd y mwnci'r caws yn ddwy ran, ond gwnaeth yn siŵr bod un darn yn fwy na'r llall.

Dechreuodd y cathod gweryla eto ynghylch pwy ddylai gael y darn mwyaf o gaws, felly dywedodd y mwnci y byddai'n gwneud yn siŵr bod y ddau ddarn yr un maint.

Torrodd y mwnci ddarn bach i ffwrdd o'r darn



mwyaf o gaws a'i fwyta.

Roedd y darn caws hwnnw nawr yn llai na'r darn arall o gaws.

Dechreuodd y cathod gweryla eto ynghylch pwy ddylai gael y darn mwyaf o gaws, felly dywedodd y mwnci eto y byddai'n gwneud yn siŵr bod y ddau ddarn yr un maint.


Torrodd y mwnci ddarn bach i ffwrdd o'r darn mwyaf o gaws a'i fwyta. Roedd y darn mwyaf nawr yn llai na'r darn lleiaf o gaws eto.

Dechreuodd y cathod gweryla to ynghylch pwy ddylai gael y darn mwyaf o gaws, a thorrodd y mwnci fwy o gaws i ffwrdd o'r darn mwyaf.

Cyn hir, dim ond un darn bach o gaws oedd ar ôl.

Cyn y gallai'r cathod gweryla ynghylch pwy ddylai gael y darn olaf o gaws, roedd y mwnci wedi'i fwyta.

Pan ddechreuodd y cathod gwyno am hyn, dywedodd y mwnci ei fod yn haeddu gwobr am ei holl waith caled yn tawelu'r holl gweryla.



## **Y brogaod a oedd eisiau bod yn frenin**

Un tro, roedd llawer o frogaod yn byw mewn pwll o ddŵr.

Credai'r brogaod fod arnynt angen frenin, ond nid oeddent yn gwybod ble i gael un.

Dechreuodd y brogaod weddio ar Dduw, gan ofyn iddo anfon frenin i ddod i reoli drostynt a'u cadw'n ddiogel.

Roedd Duw ychydig yn flin oherwydd credai y dylai'r brogaod fod wedi dewis eu frenin eu hunain.

Yn hytrach nag anfon frenin atynt, trefnodd Duw bod boncyff coeden fawr yn syrthio o'r awyr ac yn glanio yn eu pwll.

Meddai Duw, "Dyma eich frenin chi".

Sblashiodd y boncyff gan ddychryn y brogaod.

Cyn hir, mentrodd y brogaod at y boncyff gan ddechrau chwarae arno.

Siaradodd y brogaod gyda'r boncyff, ond wrth gwrs, nid oedd yn ateb nac yn symud.

"Nid frenin yw hwn," dywedodd y brogaod. "Gadewch i ni




ofyn i Dduw unwaith eto, a gwneud yn siŵr ei fod yn rhoi brenin go iawn i ni y tro yma!”

Tra oedden nhw'n aros i Dduw anfon brenin newydd atynt, hedfanodd crëyr i lawr i'w pwll. Roedd yn aderyn mawr gyda choesau hir a phig mawr main.

Dywedodd y crëyr wrth y brogaod mai ef oedd eu brenin newydd, a gofynnodd iddyn nhw agosáu fel y gallai ddweud wrthynt sut roedd yn mynd i reoli drostynt a'u cadw'n ddiogel.

Herciodd y brogaod tuag at y crëyr gan eistedd o'i amgylch mewn cylch.

Unwaith eu bod yn ddigon agos, ac yn eistedd yn dawel, agorodd y crëyr ei big mawr a bwyta bob un ohonyn nhw'n sydyn.



## Yr ysgyfarnog a'r crwban

Un tro, roedd ysgyfarnog.

Roedd yr ysgyfarnog yn ymffrostio i'r anifeiliaid eraill pa mor gyflym y gallai redeg.

“Rwyf i wedi ennill pob ras y bûm ynnddi erioed,” meddai.

“Oes yna anifail yma sy'n ddigon cyflym i rasio gyda fi?”

Roedd y crwban wedi bod yn gwrando'n ofalus ar yr ysgyfarnog yn ymffrostio, a dywedodd, “Wna i rasio yn dy erbyn.”

Chwarddodd yr holl anifeiliaid, a dywedodd yr ysgyfarnog, “Dyna jôc dda iawn. Allwn i ddawnsio o dy amgylch yr holl ffordd.”

“Paid ag ymffrostio hyd nes dy fod wedi ennill,” meddai'r crwban. “Beth am ras?”

Dechreuodd yr ysgyfarnog a'r crwban y ras.

I ffwrdd â'r ysgyfarnog mor gyflym ag y gallai. Cyn hir, roedd wedi hen adael y crwban ar ei ôl, a meddyliodd fod ganddo amser i orffwys.





Roedd hi'n ddiwrnod braf a phoeth, a gorweddodd yr ysgyfarnog i lawr yn y cysgod dan goeden.

Roedd yr ysgyfarnog wedi blino'n lân ar ôl rhedeg mor gyflym a chyn hir, roedd yn cysgu'n drwm.

Beth amser yn ddiweddarach, cerddodd y crwban heibio yn dawel ac yn araf.

Breuddwydiodd yr ysgyfarnog ei fod wedi ennill y ras, a'i fod yn gallu clywed yr anifeiliaid eraill yn cymeradwyo.

Deffrodd yr ysgyfarnog, a chanfod ei fod wir yn gallu clywed cymeradwyaeth.

Rhedodd nerth ei draed tuag at y llinell derfyn.

Pan gyrhaeddodd yr ysgyfarnog ddiwedd y ras, gwelodd fod y crwban wedi cyrraedd yn barod, ac wedi ennill y ras.



## Y paun a'r crychydd

Un tro roedd paun a oedd yn meddwl ei fod yn olygus iawn.

Byddai'n aml yn treulio amser yn edrych ar ei hun ac yn meddwl pa mor dda roedd yn edrych.

Roedd byth a beunydd yn dangos plu ysblennydd ei gynffon i'r adar eraill gael eu hedmygu.

Nid oedd un o'r adar eraill, sef y crychydd, yn meddwl ei bod yn hardd.

Roedd gan y crychydd blu llwyd, diolwg ac anniben.


Byddai'r paun yn hoffi arddangos ei blu hardd ac yn gwneud hwyl ar ben y crychydd.

Dywedodd, "Edrycha arna i. Mae fy ngwisg aur a phorffor yn gwneud i mi edrych fel brenin. Rwyt ti'n edrych yn llwyd ac yn anniben."

Roedd y crychydd yn teimlo'n drist iawn.

Ceisiodd wneud ei hun deimlo'n well trwy feddwl beth allai hi wneud yn well na'r paun.

Gwyddai bod plu cynffon hardd y paun yn drwm iawn, ac na allai hedfan yn dda iawn, na hedfan ymhell.



Dywedodd y crychydd wrth y paun, “Nid yw fy mhlu i mor hardd â dy blu di, ond rwy’n gallu hedfan fry a chanu wrth y sêr. Rwy’n gallu gweld y byd i gyd oddi yno, a thithau ond yn gallu gweld beth sydd yn dy ymyl wrth i ti gerdded ar y ddaear.”



## Y ci a'i adlewyrchiad


Un tro, roedd ci barus a oedd wedi cael asgwrn mawr, blasus. Roedd yn cerdded adref gyda'r asgwrn yn ddiogel yn ei geg. Roedd y llwybr yn arwain at bont fechan oedd yn croesi afon. Wrth iddo gerdded dros y bont, edrychodd y ci i lawr ar y dŵr a gwelodd gi arall gydag asgwrn mawr blasus yn ei geg. Roedd y ci eisiau asgwrn y ci arall yn ogystal â'i asgwrn ei hun. Cyfarthodd ar y ci arall, ond pan wnaeth hyn, syrthiodd yr asgwrn allan o'i geg. Neidiodd i mewn i'r dŵr i ddwyn asgwrn y ci arall. Cafodd ei gario ymaith gan ddŵr cyflym yr afon. Roedd ofn ar y ci y byddai'n boddi. Ymhen amser, llwyddodd y ci i ddringo allan i lan yr afon. Safodd yno, yn wlyb domen ac yn oer iawn. Gwyddai ei fod wedi bod yn wirion iawn.



Roedd bron â marw, roedd ganddo gryn bellter i gerdded adref, ac roedd wedi colli ei asgwrn.

Wrth feddwl am y peth, gwyddai'r ci ei fod wedi bod yn fyrbwyll iawn.

Dylai fod wedi meddwl am yr hyn a welodd, a phenderfynu'n ofalus beth i'w wneud yn lle neidio i mewn heb feddwl.



## Y dyn a'r eos

Un noson o haf, gorweddai dyn yn gwranddo ar gân swynol yr eos.

Roedd y dyn yn caru'r gân cymaint fel y penderfynodd geisio dal yr eos a'i chadw, fel y gallai wrando arni'n canu bob nos.

Gwnaeth y dyn gawell a'i osod gerllaw'r goeden.

Taflodd ychydig o reis ar y ddaear ac arhosodd i'r aderyn gyrraedd.

Gwelodd yr eos y gronynnau o reis a hedfanodd i lawr i'w bwyta.

Daliodd y dyn yr eos a'i rhoi yn y gawell.

Arhosodd y dyn am sawl diwrnod i'r eos ganu, ond eisteddai'r eos ar lawr y gawell yn edrych yn drist.

Ymhen ychydig ddyddiau, roedd y dyn wedi colli amynedd a gofynnodd i'r eos pam nad oedd yn canu.

Atebodd yr eos, "Nid yw eosiaid mewn cewyll fyth yn canu. Gad i mi hedfan allan, ac fe ganaf i ti."



“Os nad wyt ti'n canu i mi, fe wnaf dy fwyta,” dywedodd y dyn. “Rydw i wedi clywed bod eos ar dost yn hynod o flasus.”

“Paid â'm bwyta,” dywedodd yr eos. “Os gaf i hedfan yn rhydd, fe ddywedaf dri pheth wrthyt a fydd werth mwy i ti na fy nghorff truenus.”

Roedd y dyn eisiau gwybod beth oedd y tri pheth, felly gadawodd yr eos yn rhydd.

Hedfanodd yr eos i ben y goeden, ymhell o'i afael, a dywedodd, “Hen ddyn gwirion, dyma'r tri pheth yr addewais ddweud wrthyt:

“Yn gyntaf, paid byth ag ymddiried yn unrhyw beth y dywed aderyn mewn cawell.

Yn ail, paid byth â gollwng beth sydd gennynt.

Yn drydydd, paid byth â chrio dros rywbeth wyt ti wedi'i golli.”

Hedfanodd yr eos ymaith. Ni welodd y dyn mohoni fyth eto.



## Y llwynog a'r crëyr

Unwaith roedd yna llwynog a oedd yn hoffi chwarae triciau ar anifeiliaid ac adar eraill.

Roedd y llwynog yn ffrindiau gyda chrëyr swil.

Un diwrnod, daliodd y llwynog iâr a gwnaeth gawl blasus gyda'r iâr.

Aeth y crëyr heibio cartref y llwynog gan arogl'r cawl yn coginio.

“W, dyna oglau da,” meddai'r crëyr wrth iddi sefyll wrth ddrws y gegin.

Roedd y llwynog yn llwglyd a'r cawl yn barod i'w fwyta.

Gwyddai y dylai rannu'r cawl gyda'i ffrind, ond roedd eisiau bwyta'r cyfan ei hun.

Roedd y llwynog yn gyfrwys. Roedd yn gwybod sut gallai ofyn i'r crëyr rannu'r cawl ond cadw'r cyfan iddo ef ei hun.

Gofynnodd i'r crëyr aros am swper, ond rhoddodd y cawl ar blât fflat.





Gwyddai'r llwynog na fyddai'r crëyr yn gallu bwyta cawl o blât gan fod ei phig yn hir a phigog, ac nad oedd ei thafod yn ddigon hir i lyfu'r cawl.

Bwytodd y llwynog y cawl i gyd, gan ddweud ei fod yn hynod o flasus.

Roedd y crëyr yn llwglyd iawn ac yn drist iawn, gan nad oedd yn gallu bwyta'r cawl.

Aeth y crëyr adref, a bwytodd y llwynog yr holl gawl o blât y crëyr.

Bythefnos yn ddiweddarach, gofynnodd y crëyr i'r llwynog ddod draw am swper.

Pan gyrhaeddodd, dywedodd wrthi fod oglau hyfryd ar y bwyd oedd yn coginio.

Yn wir, roedd yr oglau mor dda fel y dechreuodd dynnu dŵr o'i ddannedd.

Dywedodd y crëyr wrtho ei bod wedi dal pysgodyn mawr a'i bod wedi gwneud cawl blasus.

Rhoddodd y crëyr ei chawl pysgodyn mewn jariau uchel.

Wrth gwrs, roedd pig y crëyr yn gallu cyrraedd gwaelod y jar, a gallai fwyta ei chawl yn rhwydd.



Ni allai'r llwynog druan gael ei ben yn y jar ac nid oedd ei dafod yn ddigon hir i gyrraedd y cawl.

Aeth adre'n llwglyd gan nad oedd yn gallu bwyta dim o'r cawl.



## Y ceiliog a'r em

Roedd ceiliog unwaith yn byw ar fferm gydag ieir eraill.

Roedd yn geiliog balch ac awdurdodol, a chredai mai ef oedd brenin y buarth.

Un diwrnod, daeth y ffermwr a dweud wrth yr holl ieir nad oedd ganddo fwy o gorn.

Dywedodd y ffermwr nad oedd ganddo arian i brynu mwy o gorn ac y byddai'n rhaid iddyn nhw edrych ar ôl eu hunain a chwilio am fwyd eu hunain o hyn ymlaen.

Gadawodd yr holl ieir y fferm gan grwydro drwy'r caeau yn chwilio am fwyd.

Er iddynt chwilio ymhobman, ni allent ddod o hyd i unrhyw fwyd i'w fwyta.

Roedden nhw'n flinedig a llwglyd, pan feddyliodd y ceiliog balch ei fod wedi gweld gronyn o gorn sgleiniog yn y gwair.

Penderfynodd godi'r gronyn cyn i'r ieir eraill ei weld, fel nad oedd yn rhaid iddo ei rannu.

Rhedodd tuag at y gronyn o gorn, ond wrth iddo agosáu, gallai weld nad gronyn o gorn mohono, ond gem sgleiniog.



“O,” dywedodd y ceiliog. “Mae’n siŵr y byddai’r person a gollodd yr em yn hapus o’i chael yn ôl, ond rwyf mor llwglyd, ac nid yw’r em hon o unrhyw werth i mi.”

Taflodd yr em yn ôl i’r gwair hir, ac ni welwyd mohoni fyth eto.



## Y llwynog a'r frân

Roedd unwaith frân a oedd wedi canfod darn o gaws, ac wedi hedfan fry i'r goeden i'w fwyta.

Roedd llwynog yn cerdded drwy'r goedwig yn chwilio am fwyd.


Gwelodd y llwynog y frân a'r caws, a phenderfynodd ei fod eisiau'r caws i'w fwyta ei hun.

Meddyliodd y llwynog am gynllun cyfrwys i gael y caws o'r frân.

Edrychodd i fyny ar y frân, a dywedodd, "O frân, rwy'ti mor hardd. Mae dy blu yn ddu a sgleiniog. Mae dy lygaid yn loyw a dy big yn hyfryd."

Credai'r frân mai hi oedd yr aderyn harddaf yn y goedwig, ac roedd hi wrth ei bodd pan fyddai pobl yn dweud pethau hyfryd amdani.

Gallai'r llwynog weld ei bod yn hoffi clywed y pethau hyfryd a ddywedodd.



Gofynnodd, “O frân hardd, mae’n rhaid bod gan aderyn mor brydferth â thi lais swynol. Wnei di ganu i mi, os gweli di’n dda?”

Roedd y frân mor falch o glywed ei eiriau hyfryd fel yr agorodd ei phig i ganu. Syrthiodd y caws allan o’i phig i’r ddaear islaw.

Llyncodd y llwynog y caws, ac i ffwrdd ag ef ar ei daith, yn gwenu o glust i glust.

Wrth i’r frân lwglyd ei wyllo’n mynd ar ei daith, gwyddai ei bod wedi cael ei thwylo.



## Y broga cwac

Un tro, roedd broga tlawd yn byw mewn cors wlyb.

Penderfynodd y byddai'n gwneud ei hun yn gyfoethog trwy wneud a gwerthu 'moddion gwyrthiol'.

Llenwodd y broga boteli bach gyda dŵr budr y gors, ac yna gadawodd ei gartref yn y gors er mwyn gwerthu ei 'foddion' newydd i'r holl anifeiliaid ac adar.

Dywedodd y broga wrth yr adar a'r anifeiliaid eraill ei fod yn feddyg da iawn a allai wella pob salwch gyda'r moddion.

Dywedodd wrthynt fod ei foddion arbennig yn gweithio'n gyflym iawn, yn blasu'n hyfryd ac yn gallu gwella unrhyw salwch.

Roedd yr anifeiliaid a'r adar i gyd yn gyffrous, ac yn barod i brynu'r moddion gwyrthiol. Cyn hir, roedd rhes o anifeiliaid ac adar yn aros i brynu'r moddion gyda'u harian.

Roedd y llwynog clyfar wedi clywed beth ddywedodd y broga wrth yr anifeiliaid, a chredai fod y broga yn dweud celwydd.



Gwaeddodd y llwynog ar y broga fel y gallai'r holl anifeiliaid ac adar ei glywed, "Os wyt ti'n feddyg go iawn, ac os yw dy foddion yn wyrthiol, pam nad wyt ti wedi'i ddefnyddio i wella dy goesau cloff a dy groen crychiog?"

Roedd y broga wedi cael ei syfrdanu. Nid oedd yn gwybod beth i'w ddweud yn syth.

Erbyn iddo ddechrau dweud bod ei groen crychiog â brychau yn ei helpu i guddio yn y brwyn, a bod ei goesau cloff yn wych ar gyfer neidio, roedd yr anifeiliaid a'r adar eraill wedi dechrau meddwl beth oedd y llwynog wedi'i ddweud.

Gwyddai'r anifeiliaid a'r adar eu bod wedi bod yn llawer rhy barod i wrando ar froliant y broga, a chyn hir, roeddent i gyd wedi cerdded ymaith heb brynu'r moddion.





## Y dylluan a'r adar

Un tro, roedd yna hen dylluan ddoeth iawn.

Gwyddai y byddai'n marw cyn hir, felly galwodd ar weddill yr adar i ddod i'w gweld.

Pan oedd yr holl adar o'i chwmpas, dywedodd dri pheth wrthynt:

Y peth gyntaf a ddywedodd y dylluan wrthynt oedd i gofio tynnu mes a oedd wedi dechrau tyfu allan o'r ddaear.

Dywedodd wrthynt y byddai'r mes yn tyfu'n goed derw, ac y byddai uchelwydd yn dechrau tyfu arnynt. Dywedodd wrth yr adar y byddai dynion yn defnyddio aeron yr uchelwydd i wneud glud ac y byddent wedyn yn taenu'r glud ar yr holl goed yn y goedwig. Byddai unrhyw aderyn a fyddai'n glanio ar y glud yn mynd yn sownd i'r goeden, a byddai'r dynion wedyn yn ei ddal a'i fwyta.

Yr ail beth a ddywedodd y dylluan wrthynt oedd i ddilyn y ffermwr a bwyta'r holl hadau llin yr oedd yn eu plannu.

Dywedodd wrthynt os byddent yn gadael i'r hadau llin dyfu, yna byddai'r ffermwr yn gwneud lliain o'r planhigion llin, ac yn gwehyddu'r lliain yn rhwydi mân. Byddai modd defnyddio'r rhwydi hynny wedyn i ddal yr adar.



Y trydydd peth a ddywedodd y dylluan wrth yr adar oedd i gofio codi unrhyw blu a fyddai'n syrthio o'u cyrff.

Esboniodd y byddai saethwyr yn dod i gasglu'r plu, ac yn eu defnyddio i wneud saethau. Byddai'r saethau hynny wedyn yn saethu adar allan o'r awyr.

Credai'r adar eraill bod y dylluan yn wirion, gan ddweud wrth ei gilydd na allai coed derw, hadau llin a phlu fyth eu brifo.

Teimlai'r dylluan yn drist nad oedd yr adar eraill yn gwranddo arni, ac felly ni roddodd unrhyw gyngor pellach.

Tyfodd y coed derw ac yn wir; tyfodd uchelwydd arnynt. Byddai dynion yn gwneud glud gydag aeron yr uchelwydd ac yn ei roi ar goed. Daliwyd llawer o adar a chafodd trigolion y castell cyfagos wledda arnynt.

Daliwyd adar eraill mewn rhwydi mân yr oedd y ffermwr wedi'u gwehyddu a'u codi rhwng y coed. Aeth y ffermwr â'r adar yn ôl i'r fferm a'u bwyta i ginio.

Llwyddodd y saethwr yntau i ladd rhai o'r adar mwyaf gyda'i fwa saeth. Ar ôl eu rhostio, cafodd ef a'r milwyr eraill ginio blasus.



Ychydig iawn o adar oedd ar ôl heb eu dal a'u lladd. Gwelodd yr adar hynny mai'r dylluan oedd yr aderyn doethaf, ac yn aderyn a oedd yn haeddu eu parch.



## **Y grawnafal, y goeden afal a'r fiaren**

Roedd y goeden grawnafal a'r goeden afalau wedi bod yn cweryla ers misoedd lawer.

Dywedodd y goeden grawnafal mai hi oedd yr harddaf, ond nid oedd y goeden afalau yn cytuno. Credai hi mai hi oedd yr harddaf.

Roedd yr holl blanhigion, anifeiliaid ac adar eraill wedi cael llond bol o'u clywed yn cweryla.

Un diwrnod, pan oedden nhw'n cweryla eto, ceisiodd miaren a oedd yn tyfu gerllaw eu tawelu. Dywedodd wrthynt am beidio cweryla gan ei bod hi'n harddach na'r ddwy ohonynt.



## Y llygoden fawr a'r broga

Un tro, roedd llygoden fawr wledig lwglyd, a oedd yn teithio i'r dref i weld a allai wneud bywyd gwell i'w hun.

Daeth at afon ddofn, lydan gyda'i dŵr yn llifo'n sydyn. Ni chredai fod ganddi'r nerth i nofio ar ei thraws.

Gwelodd froga'n eistedd ar lan yr afon gerllaw. Gwyddai fod brogaod yn nofwyr da iawn gan eu bod yn treulio llawer o amser mewn dŵr, felly penderfynodd ofyn am ei help.

Roedd y broga'n ymddangos yn gyfeillgar pan ofynnodd am help llaw, a dywedodd wrthi am ddringo fynny ar ei gefn.

Pan oedd y llygoden ar ei gefn, clymodd y broga ei choes i'w goes ef gyda darn o llynyn. Dywedodd y broga wrth y llygoden y byddai'r llynyn yn ei rhwystro rhag cael ei chario ymaith pe byddai'n syrthio o'i gefn tra oeddent yn croesi'r afon.

I ffwrdd â nhw ar draws yr afon, gyda'r broga'n nofio'n hyderus.

Pan oeddent yng nghanol yr afon, plymiodd y broga yn sydyn i waelod yr afon. Cafodd y llygoden fawr ei thynnu dan y dŵr ac fe foddodd.



Nofiodd y broga tuag at y lan. Roedd ar fin rhyddhau ei hun o'r llygoden, ond cyn iddo gael cyfle i wneud hynny, daeth hebog mawr uwch ei ben a chipio'r llygoden fawr allan o'r dŵr cyn hedfan ymaith. Roedd y broga dal wedi'i glymu i'r llygoden fawr ac felly cafodd yntau ei gario i'r awyr hefyd.

Pan laniodd yr hebog i fwyta'r llygoden fawr, gwelodd fod ganddo froga yn ogystal â'r llygoden fawr, felly bwytodd y ddau ohonynt.

## **Beth yw neges y stori?**

*Mae pobl sy'n niweidio pobl eraill yn aml yn niweidio'u hunain wrth wneud hynny.*

## **Pwyntiau trafod**

Beth ydych chi'n ei feddwl o'r neges? A yw'n dal i fod yn berthnasol heddiw?

Beth ydych chi'n ei feddwl o ymddygiad y broga?

Broga, llygoden a barcut yw'r anifeiliaid arferol yn y rhan fwyaf o fersiynau o'r chwedl hon. Dewisodd yr Arglwydd Bute beintio broga, llygoden fawr a hebog ar wal lolfa Castell Coch. Ydych chi'n meddwl bod gwahaniaeth i'r stori os yw llygoden fawr neu llygoden yn cael ei boddi? Pam?



Mae barcut yn aderyn rheibus sy'n bwyta creaduriaid meirw – ond mae hebogiaid yn bwyta creaduriaid byw. A yw'r math o aderyn yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r chwedl?



## Y gwningen, y wenci a'r gath

Un tro, roedd cwningen yn byw mewn twll cwningen cysurus yn y ddaear. Bob bore, byddai'n mynd allan i chwilio am fwyd yn y caeau ger ei chartref.

Un diwrnod, aeth gwenci i mewn i'r twll cwningen tra oedd y gwningen allan yn chwilio am fwyd. Ar ôl archwilio'r lle, penderfynodd y wenci y byddai'n lle diogel i fyw, a dechreuodd wneud ei hun yn gysurus.

Ar ôl dychwelyd, ceisiodd y gwningen fynd i mewn i'r twll, ond nid oedd y wenci am adael iddi wneud hynny. Roedd y gwningen yn flin a dywedodd wrth y wenci am adael y twll, gan ddweud mai ei chartref hi oedd y twll yma.

Atebodd y wenci mai ei thwll hi oedd ef rwan, ac y byddai'n rhaid i'r gwningen adael.

Dechreuodd y gwningen a'r wenci gweryla gan alw enwau ar ei gilydd. Cyn hir, roedd y ddwy yn ymladd.

Roedd y gwningen yn fwy o lawer na'r wenci, a gallai gicio'n galed; ond roedd y wenci yn gyflymach na'r gwningen, ac roedd ganddi hefyd ddannedd miniog. Wrth i'r ddau anifail ymladd, dechreuodd y ddau sylweddoli nad oedd modd iddynt ennill yn llwyr er y gallent frifo ei gilydd.

**Chwedlau Aesop**





Wedi llwyr ymlâdd, penderfynodd y wenci a'r gwningen ofyn i rywun arall farnu pwy ddylai fyw yn y twll cwningen.

Rhodddwyd y gwaith hwnnw i'r gath ddoeth. Dechreuodd y gwningen a'r wenci siarad ar draws ei gilydd, gan esbonio wrth y gath beth oedd y broblem. Gofynnodd y gath iddynt dawelu gan ddweud na allai glywed yn iawn beth oeddent yn ei ddweud.

Dywedodd y gath wrth y gwningen a'r wenci ei bod yn drwm iawn ei chlyw, a gofynnodd i'r ddwy agosáu fel y gallai eu clywed yn iawn.

Aeth y gwningen a'r wenci at y gath, ond cyn iddynt gael cyfle i eistedd, roedd y gath wedi cydio yn y ddwy a'u lladd yn syth.

## **Beth yw neges y stori?**

*Mae'r cryfion yn dueddol o ddatrys problemau er eu mantais eu hunain.*

## **Pwyntiau trafod**

Mae'r cryfion yn dueddol o ddatrys problemau er eu mantais eu hunain.



## Y paun a'r biden

Un tro, roedd paun a oedd eisiau bod yn frenin ar yr holl adar. Roedd yr adar eraill yn edmygu ei blu ysblennydd a'r holl liwiau yn ei gynffon odidog.

Dywedodd y paun wrth yr adar eraill am ei gynlluniau i'r dyfodol, ac wrth iddo siarad, dechreuodd yr adar gytuno y byddai'n gwneud brenin da iawn.

Fodd bynnag, ni chredai'r biden mai'r paun oedd yr aderyn gorau i fod yn frenin. Dywedodd wrth y lleill: "Os ydym yn barnu pethau yn ôl eu golwg, yna'r paun gyda'i holl ysblander ddylai fod yn frenin. Fodd bynnag, hoffwn ofyn i'r paun beth fyddai ef yn ei wneud pe bai eryr neu gath yn ymosod arnom?"

Ni wyddai'r paun beth i'w ddweud; nid oedd ganddo unrhyw syniad sut i ateb cwestiwn y biden.

Dechreuodd yr adar eraill drafod a oedd y paun yn ddigon doeth i fod yn frenin arnynt. Ai ef oedd yr aderyn gorau i'w hamddiffyn mewn ymosodiad, ac a oedd ganddo'r sgiliau eraill angenrheidiol i fod yn frenin da.

Yn olaf, penderfynodd yr adar nad y paun oedd yr aderyn gorau i fod yn frenin, a dechreuon nhw



chwilio am aderyn fyddai'n gwneud brenin doethach, cryfach a mwy addas.

## **Beth yw neges y stori?**

*Dylid barnu pobl ar sail eu gweithredoedd, nid eu golwg.*

## **Pwyntiau trafod**

Beth ydych chi'n ei feddwl o'r neges? A yw'n dal i fod yn berthnasol heddiw?

Pa rinweddau a sgiliau gredwch chi sy'n angenrheidiol i fod yn frenin da?

A fyddai ar frenin yr adar fod angen sgiliau a rhinweddau gwahanol i frenin y bobl?

Sut mae rhywun yn dangos bod ganddynt y rhinweddau a'r sgiliau hyn?

Beth yw'r ffordd orau i benderfynu pwy ddylai fod yn frenin?

A ddylai mab y brenin bob amser ddod yn frenin ar ei ôl?



## Y cathod a'r caws

Un tro, roedd dwy gath a oedd yn ffrindiau da. Roedden nhw'n aml yn chwarae gyda'i gilydd ac yn cytuno gyda'i gilydd yn dda iawn.

Un diwrnod, gwelodd y cathod ddarn mawr o gaws. Roedd y ddwy yn hoffi caws, ac felly penderfynon nhw ei rannu.

Doedden nhw ddim yn gallu cytuno sut i rannu'r caws, gan fod y ddwy gath eisiau darn mwy na'r llall. Dechreuodd y ddwy ymladd dros y caws yn lle ei rannu rhyngddynt yn deg.

Daeth mwnci craff atynt a chynigiodd ddatrys y broblem drwy rannu'r caws rhwng y cathod. Torrodd y mwnci'r caws yn ddwy ran, ond gwnaeth yn siŵr bod un darn yn fwy na'r llall.

Dechreuodd y cathod gweryla eto ynghylch pwy ddylai gael y darn mwyaf o gaws, felly dywedodd y mwnci y byddai'n gwneud yn siŵr bod y ddau ddarn yr un maint.

Torrodd y mwnci ddarn bach i ffwrdd o'r darn mwyaf o gaws a'i fwyta. Roedd y darn caws hwnnw nawr yn llai na'r darn arall o gaws. Dechreuodd y cathod gweryla eto ynghylch pwy ddylai gael y darn mwyaf o gaws.



Torrodd y mwnci ddarn bach i ffwrdd o'r darn mwyaf o gaws a'i fwyta. Roedd hynny'n golygu bod y darnau eto yn wahanol eu maint. Parhaodd y cathod i gweryla, a pharhaodd y mwnci i dorri darnau bach o gaws a'u bwyta. Cyn hir, dim ond un darn bach o gaws oedd ar ôl.

Cyn y gallai'r cathod gweryla ynghylch pwy ddylai gael y darn olaf o gaws, roedd y mwnci wedi'i fwyta. Dywedodd y mwnci ei fod yn haeddu gwobr am ei holl waith caled yn datrys eu problem.

## **Beth yw neges y stori?**

*Pan fyddwch chi'n cweryla, mae rhywun arall ar ei ennill.*

## **Pwyntiau trafod**

Beth ydych chi'n ei feddwl o'r neges? A yw'n dal i fod yn berthnasol heddiw?

Beth ydych chi'n ei feddwl o ymddygiad y mwnci?

A fyddech chi'n gadael i'r mwnci ddatrys anghytundeb rhyngddoch chi a chyfaill? Rhowch resymau dros eich ateb.

Sut byddech chi wedi datrys yr anghytundeb rhwng y ddwy gath?



## Y brogaod a oedd eisiau bod yn frenin

Un tro, roedd llawer o frogaod yn byw mewn pwll o ddŵr.

Roedden nhw'n meddwl bod eu bywyd yn ddiflas, felly dechreuodd y brogaod weddio ar Dduw, gan ofyn iddo anfon brenin i ddod i reoli drostynt a gwneud eu bywydau yn fwy diddorol.

Roedd Duw yn flin bod y brogaod wedi'i boeni gyda rhywbeth mor ddibwys, felly trefnodd bod boncyff coeden fawr yn syrthio o'r awyr ac yn glanio yn eu pwll.

Meddai Duw, "Dyma eich brenin chi."

Sblashiodd y boncyff gan ddychryn y brogaod. Ymhen ychydig, roedden nhw wedi sylweddoli nad oedd yn mynd i symud, felly mentrodd y brogaod ato a dechrau chwarae arno. Siaradodd y brogaod gyda'r boncyff, ond wrth gwrs, nid oedd yn ateb nac yn symud.

"Nid brenin yw hwn," dywedodd y brogaod. "Gadewch i ni ofyn i Dduw unwaith eto, a gwneud yn siŵr ei fod yn rhoi brenin go iawn i ni y tro yma!"

Tra oedden nhw'n aros i Dduw eu hateb, hedfanodd crëyr i lawr i'w pwll. Roedd yn aderyn mawr gyda choesau hir a phig mawr main. Dywedodd



wrthynt mai ef oedd eu Brenin newydd, a gofynnodd iddyn nhw agosáu fel y gallai ddweud wrthyn nhw sut oedd yn mynd i wneud eu bywydau yn fwy cyffrous ...

Herciodd y brogaod ar ôl ei gilydd tuag at y crëyr, gan eistedd o'i gwmpas mewn cylch. Unwaith eu bod wedi ymdawelu, agorodd y crëyr ei big mawr a bwyta bob un ohonyn nhw.

## **Beth yw neges y stori?**

*Gofalwch beth ydych chi'n ei ddymuno.*

## **Pwyntiau trafod**

Beth ydych chi'n ei feddwl o'r neges? A yw'n dal i fod yn berthnasol heddiw?

Pa rinweddau a sgiliau gredwch chi sy'n angenrheidiol i fod yn frenin da?

A fyddai ar frenin y brogaod fod angen sgiliau a rhinweddau gwahanol i frenin y bobl?

Sut mae rhywun yn dangos bod ganddynt y rhinweddau a'r sgiliau hyn?

Beth yw'r ffordd orau i benderfynu pwy ddylai fod yn frenin?

A ddylai mab y brenin bob amser ddod yn frenin ar ei ôl?

## **Chwedlau Aesop**



## Yr ysgyfarnog a'r crwban

Un tro, roedd ysgyfarnog a hoffai ymffrostio i'r anifeiliaid eraill pa mor gyflym y gallai redeg.

“Rwyf i wedi ennill pob ras y bêm ynnddi erioed,” meddai.

“Rwy’n herio unrhyw anifail yma i rasio yn fy erbyn i.”

Dywedodd y crwban a oedd wedi bod yn gwrando’n ofalus, “Wna i dderbyn dy her.”

Chwarddodd yr holl anifeiliaid, a dywedodd yr ysgyfarnog, “Dyna jôc dda iawn. Allwn i ddawnsio o dy amgylch yr holl ffordd.”

Rhedodd yr ysgyfarnog o amgylch y crwban ychydig o weithiau, gan ddangos pa mor gyflym y gallai redeg.

“Paid ag ymffrostio hyd nes dy fod wedi ennill,” meddai'r crwban. “Barod amdani?”

Cytunodd yr ysgyfarnog a'r crwban ar gwrs ac ar linell derfyn, ac i ffwrdd â'r ddau ar eu ras.





I ffwrdd â'r ysgyfarnog nerth ei draed. Cyn hir, roedd wedi hen adael y crwban ar ei ôl, a phenderfynodd fod ganddo amser i orffwys. Roedd hi'n ddiwrnod poeth, a gorweddodd yr ysgyfarnog i lawr yng nghysgod coeden. Ymhen dim, roedd yn cysgu'n drwm.

Beth amser yn ddiweddarach, ymlusgodd y crwban heibio yn dawel.

Breuddwydiodd yr ysgyfarnog ei fod wedi ennill y ras, a'i fod yn gallu clywed yr anifeiliaid eraill yn cymeradwyo.

Deffrodd yn sydyn, a chanfod ei fod wir yn gallu clywed cymeradwyaeth; nid oedd bellach yn breuddwydio.

Rhedodd nerth ei draed tuag at y llinell derfyn, a chanfod bod y crwban wedi cyrraedd o'i flaen ac wedi ennill y ras.

## **Beth yw neges y stori?**

*Pwyll pia hi.*

## **Pwyntiau trafod**

Beth ydych chi'n ei feddwl o'r neges? A yw'n dal i fod yn berthnasol heddiw?



Beth ydych chi'n ei feddwl o bobl sy'n ymffrostio, ac sy'n gallu gwneud pethau'n gyflym ond efallai nad yn iawn bob amser?

Beth ydych chi'n ei feddwl o bobl sy'n gweithio'n gyson ac yn araf, hyd nes eu bod wedi cwblhau'r hyn a ddechreuwyd ganddynt?

A oes arnom angen y ddau fath o berson?



## Y paun a'r crychydd

Un tro roedd paun a oedd yn hoff iawn o'i olwg ac yn meddwl ei fod yn olygus iawn.

Byddai'n aml yn treulio amser yn syllu ar ei adlewyrchiad yn y pyllau yn y goedwig.

Ef oedd yr aderyn balchaf, ac roedd byth a beunydd yn dangos plu ysblennydd ei gynffon i'r adar eraill gael eu hedmygu.

Nid oedd un o'r adar eraill, sef y crychydd, yn meddwl ei bod yn hardd; yn wir, roedd ei phlu llwyd, diolwg ac anniben yn codi cywilydd arni.

Byddai'r paun yn hoffi arddangos ei blu hardd ac yn gwneud hwyl ar ben y crychydd.

Dywedodd, "Edrycha arna i. Mae fy ngwisg aur a phorffor yn gwneud i mi edrych fel brenin. Does dim arlliw o liw ar dy blu di."

Teimlai'r crychydd yn drist iawn, a cheisiodd feddwl am rywbeth y gallai hi ei wneud yn well na'r paun.



Gwyddai fod plu cynffon hardd y paun yn drwm iawn, ac na allai hedfan yn dda iawn, na hedfan ymhell.

Atebodd eiriau creulon y paun trwy ddweud, “Nid yw fy mhlu i mor hardd â dy blu di, ond rwy’n gallu hedfan fry a chanu wrth y sêr. Rhaid i ti gerdded fel ceiliog ymhlith adar y domen dail.”

### **Beth yw neges y stori?**

*Dylid barnu pobl ar sail eu gweithredoedd, nid eu golwg.*

*Nid yw plu ysblennydd o reidrwydd yn gwneud adar gwych.*

### **Pwyntiau trafod**

Beth ydych chi’n ei feddwl o’r neges? A yw’n dal i fod yn berthnasol heddiw?

Sut rydych chi’n teimlo am bobl sy’n ymffrostio?

A ydych chi’n barnu pobl ar sail eu golwg?

A ydych chi’n barnu pobl ar sail eu gweithredoedd?



## Y ci a'i adlewyrchiad

Un tro, roedd ci barus a oedd wedi cael asgwrn mawr, blasus.

Roedd yn cerdded adref gyda'r asgwrn yn ddiogel yn ei geg a'i lwybr yn arwain at bont fach oedd yn croesi afon. Wrth iddo gerdded dros y bont, edrychodd y ci i lawr ar y dŵr a gwelodd gi gydag asgwrn mawr blasus yn ei geg.

Roedd y ci eisiau asgwrn y ci arall yn ogystal â'i asgwrn ei hun, felly penderfynodd ddwyn yr asgwrn.

Cyfarthodd ar y ci arall, ond pan wnaeth hyn, syrthiodd yr asgwrn allan o'i geg. Neidiodd i mewn i'r dŵr i ddwyn asgwrn y ci arall ond cafodd ei gario ymaith gan gerrynt cyflym yr afon.

Ymhen amser, llwyddodd y ci i ddringo allan i lan yr afon. Safodd yno yn drist gan feddwl am yr asgwrn blasus yr oedd wedi'i golli. Sylweddolodd ei fod wedi bod yn wirion iawn. Roedd wedi ymddwyn yn rhy fyrbwyll, ac wedi rhedeg ar ôl ei adlewyrchiad yn lle pwylllo a meddwl am yr hyn a welodd.

Ei ymddygiad byrbwyll a barus oedd wedi achosi iddo golli'r asgwrn.



## **Beth yw neges y stori?**

*Mae angen meddwl cyn gweithredu.*

*Nid da yw gor-drachwant.*



## Y llafurwr a'r eos

Un noson o haf, gorwedddai llafurwr yn gwrando ar gân swynol yr eos. Roedd yn caru'r gân cymaint fel y penderfynodd geisio dal yr eos a'i chadw, fel y câi wrando arni'n canu bob nos.

Gwnaeth y llafurwr gawell a'i osod gerllaw'r goeden. Taflodd ychydig o reis ar y ddaear ac arhosodd i'r aderyn gyrraedd. Gwelodd yr eos y gronynnau o reis a hedfanodd i lawr i'w bwyta. Daliodd y dyn yr eos a'i rhoi yn y gawell.

Ond ni chanodd yr eos mwyach. Arhosodd y llafurwr i'r eos ganu am sawl diwrnod ond gwrthodai'r eos ganu nodyn.

Un diwrnod, collodd y llafurwr ei dymer a gofynnodd i'r eos pam nad oedd yn canu.

Atebodd yr eos, "Nid yw eosiaid mewn cewyll fyth yn canu. Gad i mi hedfan allan, ac fe ganaf i ti."

"Os nad wyt ti'n canu i mi, fe wnafe dy fwyta," dywedodd y llafurwr. "Rydw i wedi clywed bod eos ar dost yn bryd bach blasus."

"Paid â'm bwyta," dywedodd yr eos. "Os gaf i hedfan yn rhydd, fe roddaf dri darn o gyngor i ti a fydd werth mwy i ti na fy nghorff truenus."



Roedd y dyn yn chwilfrydig, felly agorodd ddrws y gawell.

Hedfanodd yr eos i ben y goeden, ymhell o'i afael, a dywedodd, "Hen ddyn gwirion, dyma'r cyngor yr addewais ynghynt:

Yn gyntaf, paid byth ag ymddiried mewn aderyn mewn cawell.

Yn ail, paid byth â gollwng beth sydd gennyt.

Yn drydydd, paid byth â chrio dros rywbeth wyt ti wedi'i golli."

A gyda hynny, hedfanodd yr eos ymaith..

## **Beth yw neges y stori?**

*Peidiwch â chredu addewidion carcharor.*





## Y llwynog a'r crëyr

Roedd unwaith llwynog a oedd yn hoffi chwarae triciau ar anifeiliaid ac adar eraill. Roedd y llwynog yn ffrindiau gyda chrëyr swil.

Un diwrnod, daliodd y llwynog gyw iâr a gwnaeth gawl blasus gyda'r iâr.

Aeth y crëyr heibio cartref y llwynog gan arogl'r cawl yn coginio.

“Dyna oglau da,” meddai'r crëyr. “Beth wyt ti'n ei goginio?”

“Rwy'n gwneud cawl cyw iâr,” atebodd y llwynog.

“Wel mae'n arogl'n hyfryd,” dywedodd y crëyr wrth iddi sefyll wrth ddrws y gegin.

Roedd y llwynog yn llwglyd iawn a'r cawl yn barod i'w fwyta. Nid oedd eisiau ei rannu gyda'r crëyr, ond gwyddai fod disgwyl iddo roi ychydig i'r crëyr. Felly cafodd syniad hunanol.

Gofynnodd i'r crëyr aros am swper, ond rhoddodd y cawl ar blât fflat. Ni allai'r crëyr fwyta'r cawl o'r plât, a bu'n rhaid iddo wrando ar y llwynog yn claddu'r cawl ac yn canmol ei flas.

Roedd y crëyr yn llwglyd iawn ac yn siomedig iawn erbyn hyn.



Wythnos neu bythefnos yn ddiweddarach, gofynnodd y crëyr i'r llwynog ddod draw am swper.

Pan gyrhaeddodd, dywedodd y crëyr wrtho ei bod wedi dal pysgodyn mawr a'i bod wedi gwneud cawl blasus.

Rhoddodd y crëyr ei chawl pysgodyn mewn llestr uchel, urddasol.

Roedd pig y crëyr yn gallu cyrraedd gwaelod y llestr, a gallai fwyta ei chawl yn rhwydd. Ni allai'r llwynog druan gael ei ben yn y llestr ac nid oedd ei dafod yn ddigon hir i gyrraedd y cawl. Aeth adre'n llwglyd gan nad oedd yn gallu bwyta dim o'r cawl.

### **Beth yw neges y stori?**

*Dylid trin eraill fel yr hoffem ni gael ein trin.*



## Y ceiliog a'r em

Roedd ceiliog unwaith yn byw ar fferm gydag ieir a cheiliogod eraill. Roedd yn geiliog balch ac awdurdodol, a fyddai'n aml yn cerdded yn dalsyth o amgylch y buarth.

Un diwrnod, daeth y ffermwr a dweud wrth yr holl ieir bod yr holl gorn wedi'i fwyta, ac nad oedd ganddo arian i brynu mwy. Ychwanegodd na fyddai'n gallu gofalu amdanynt o hyn ymlaen ac y byddai'n rhaid iddynt chwilio am eu bwyd eu hunain.

Gadawodd yr holl ieir fuarth y fferm gan grwydro drwy'r caeau yn chwilio am fwyd.

Er iddynt chwilio ymhobman, ni allent ddod o hyd i dywysen o gorn nag unrhyw beth arall i'w fwyta.

Roedden nhw'n flinedig a llwglyd, pan feddyliodd y ceiliog balch ei fod wedi gweld gronyn o gorn sgleiniog yn y gwair. Rhuthrodd i'w godi cyn i'r ieir eraill ei weld, ond wrth iddo agosáu a'i weld yn iawn, sylweddolodd nad gronyn o gorn mohono, ond gem arbennig.

“O,” dywedodd y ceiliog. “Mae'n siŵr y byddai'r person a gollodd yr em yn hapus o'i chael yn ôl, ond byddai'n well gen i gael un gronyn o gorn yn lle'r holl emau yn y byd.”

Taflodd yr em yn ôl i'r gwair hir, ac ni welwyd mohoni fyth eto.



## **Beth yw neges y stori?**

*Nid yw pethau gwerthfawr o fudd i'r sawl na all eu gwerthfawrogi.*



## Y llwynog a'r frân

Roedd unwaith frân a oedd wedi canfod darn o gaws, ac wedi hedfan fry i'r goeden i'w fwyta.

Aeth llwynog heibio a gwelodd y frân a'r caws, a phenderfynodd ei fod eisiau'r caws i'w fwyta ei hun. Sylweddolodd fod y frân a'r caws yn rhy uchel iddo ddwyn y caws, felly meddyliodd am gynllun cyfrwys i gael y caws o'r frân.

Edrychodd i fyny ar y frân, a dywedodd, "O frân, rwy't ti mor hardd. Mae dy blu yn ddu a sgleiniog. Mae dy lygaid yn loyw a dy big du yn hyfryd."

Roedd y frân yn aderyn balch iawn, ac roedd hi wrth ei bodd pan fyddai bobl yn dweud pethau hyfryd amdani. Edrychodd ar y llwynog, a dywedodd yntau, "O frân hardd, mae'n rhaid bod gan aderyn mor brydferth â thi lais swynol. Wnei di ganu i fi, os gweli di'n dda?"

Roedd y frân mor falch o glywed ei eiriau hyfryd fel yr agorodd ei phig i ganu. Dechreuodd grawcian, a syrthiodd y caws allan o'i phig i'r ddaear islaw.

Llyncodd y llwynog y caws, ac i ffwrdd ag ef ar ei daith. Gadawodd y frân lwgld yn teimlo'n wirion.



## **Beth yw neges y stori?**

*Peidiwch ag ymddiried yn y sawl sy'n gwenieithu.*



## Y broga cwac

Un tro, roedd broga yn byw mewn cors wlyb. Penderfynodd y byddai'n gwneud ei ffortiwn trwy wneud a gwerthu 'moddion gwyrthiol'.

Llenwodd y broga boteli bach gyda dŵr budr y gors, ac yna gadawodd ei gartref yn y gors er mwyn gwerthu ei 'foddion' newydd i'r holl anifeiliaid ac adar. Heidiodd yr holl anifeiliaid ac adar ato, a dywedodd wrthynt ei fod yn feddyg profiadol a allai wella pob salwch gyda'i foddion arbennig.

Roedd yr anifeiliaid a'r adar i gyd yn gyffrous, ac yn barod i brynu'r moddion gwyrthiol.

Roedd Llwynog yng nghanol y dorf, a gwaeddodd, "Rwyf ti'n galw dy hun yn feddyg! Wfft. Sut rwyf ti'n gallu taeru dy fod yn mynd i wella eraill a thithau wedi methu gwella dy goesau cloff a dy groen crychiog?"

Er gwaethaf protestiadau'r broga fod ei groen crychiog yn guddliw rhagorol a bod ei goesau yn wych ar gyfer neidio, roedd sylwadau'r llwynog wedi gwneud i'r anifeiliaid eraill ail-feddwl ynghylch prynu ei foddion gwyrthiol. Yn wir, roeddent i gyd wedi cerdded ymaith.



## **Beth yw neges y stori?**

*Os ydych yn ceisio twyllo eraill, byddwch yn cael eich dal.*

*Ffisigwr, gwella dy hun.*





## Y dylluan a'r adar

Un tro, amser maith yn ôl, roedd yna hen dylluan ddoeth iawn. Galwodd ar weddill yr adar i ddod i'w gweld, a rhannodd ei doethineb gyda nhw gan gynnig tri darn o gyngor:

Y peth gyntaf a ddywedodd wrthynt oedd cofio tynnu mes a oedd wedi dechrau tyfu allan o'r ddaear.

Dywedodd wrthynt y byddai'r mes yn tyfu'n goed derw, ac y byddai uchelwydd yn dechrau tyfu arnynt. Rhybuddiodd y byddai dynion yn defnyddio aeron yr uchelwydd i wneud calch brwd i'w daenu ar ganghennau'r coed eraill. Byddai unrhyw aderyn a fyddai'n glanio arno yn aros yn sownd i'r goeden, a byddai'r dynion wedyn yn ei ddal.

Yr ail beth a ddywedodd y dylluan wrthynt oedd i ddilyn y ffermwr a bwyta'r holl hadau llin yr oedd yn eu plannu.

Esboniodd wrthynt os byddent yn gadael i'r hadau llin dyfu, yna byddai'r ffermwr yn gwneud lliain o'r planhigion llin, ac yn gwehyddu'r lliain yn rhwydi mân. Byddai'r rhwydi hynny wedyn yn cael eu defnyddio i ddal yr adar.



Y trydydd peth a ddywedodd y dylluan wrth yr adar oedd i gofio codi unrhyw blu a fyddai'n syrthio o'u cyrff.

Esboniodd y byddai saethwyr yn dod i gasglu'r plu, ac yn eu defnyddio i wneud saethau. Byddai'r saethau hynny wedyn yn saethu adar allan o'r awyr.

Credai'r adar eraill bod y dylluan yn wirion, ac na allai coed derw, hadau llin a phlu fyth fod yn beryglus.

Gydag amser, tyfodd y coed derw ac yn wir, tyfodd uchelwydd arnynt. Daliwyd llawer o adar a oedd wedi dod yn sownd i'r canghennau, a chafodd trigolion y castell cyfagos wleda arnynt.

Daliwyd adar eraill mewn rhwydi mân yr oedd y ffermwr wedi'u gwehyddu a'u codi rhwng y coed. Aeth y ffermwr â'r adar yn ôl i'r fferm a'u bwyta i ginio.

Yn olaf, llwyddodd y saethwr yntau i ladd rhai o'r adar mwyaf gyda'i fwa saeth. Ar ôl eu rhostio, cafodd ef a'r milwyr eraill ginio blasus.



Ychydig iawn o adar oedd ar ôl heb eu dal a'u lladd. Gwelodd yr adar hynny mai'r dylluan oedd yr aderyn doethaf. Teimlai'r dylluan hithau ei bod wedi gwastraffu ei hamser yn cynnig cyngor a gafodd ei anwybyddu. Ni roddodd unrhyw gyngor ar ôl hynny.

## **Beth yw neges y stori?**

*Mae'r sawl sy'n gallu rhagweld canlyniadau gweithredoedd yn y dyfodol yn aml yn cael eu gwawdio.*

## **Pwyntiau trafod**

A ddylai pobl iau wrando ar y cyngor a roddir gan bobl hŷn sydd wedi cael oes hir?

Sut rydych chi'n teimlo os ydych wedi rhybuddio rhywun am rywbeth ond eu bod yn anwybyddu eich rhybudd?



## **Y grawnafal, y goeden afal a'r fiaren**

Roedd y goeden grawnafal a'r goeden afalau wedi bod yn cweryla ers misoedd lawer.

Dywedodd y goeden grawnafal mai hi oedd y goeden harddaf a gorau, ond nid oedd y goeden afalau yn cytuno. Credai hi mai hi oedd y goeden harddaf a gorau.

Roedd yr holl blanhigion, anifeiliaid ac adar eraill wedi cael llond bol o'u clywed yn cweryla bob dydd.

Un diwrnod, pan oedden nhw'n cweryla eto, ceisiodd miaren gyffredin a oedd yn tyfu gerllaw eu tawelu. Dywedodd wrthynt am beidio cweryla gan ei bod hi'n harddach ac yn well na'r ddwy ohonynt.

### **Beth yw neges y stori?**

Yn wahanol i Chwedlau eraill Aesop, nid yw neges y stori hon wedi'i chyhoeddi gyda'r chwedl.

Gallai fod yn sôn am wiriondeb cweryla dros rywbeth dibwys, neu'n tynnu sylw at y ffaith bod llais 'cyffredin' yr un mor bwysig â lleisiau'r sawl sy'n cael eu parchu.



Roedd yr Arglwydd Bute yn Gristion crefyddol iawn, ac mae'n bosibl bod y stori hon ar waliau'r lolfaf am y rheswm hynny. Mae'r grawnafal, yr afal a'r fiaren yn symbolau sy'n cael eu defnyddio yn nelweddaeth ac ysgrifau Cristnogol.

Mae sôn am y grawnafal yn y Beibl sawl tro. Mae'r ffrwyth wedi'i dorri neu'n ymagor yn symbol o lawnder dioddefaint ac atgyfodiad yr Iesu, ac mae'r ffrwyth yn ymddangos yn aml mewn darluniau Cristnogol.

Gwaharddwyd Adda ac Efa rhag bwyta'r afal yng Ngardd Eden. Mae afalau euraidd yn ymddangos mewn nifer o straeon tylwyth teg dwyrain Ewrop, ac yn aml yn cael eu dwyn gan adar.

Y fiaren yw un o'r planhigion bwyta hynaf, ac mae sôn amdani mewn llyfrau sy'n hŷn na'r Beibl. Caiff ei hystyried yn blanhigyn sanctaidd sy'n gallu cadw ysbrydion dieflig draw. Yng Nghristnogaeth, mae'r fiaren yn symboleiddio purdeb y Forwyn Fair, a chred rhai ysgolheigion mai miaren oedd y llwyn a welodd Moses yn llosgi.



Mae yna hen stori Roegaidd am y fiaren yn cael ei dewis yn frenin yr holl blanhigion ar ôl i'r olewydden, y goeden ffigys a'r winwydden wrthod dod yn frenin. Mae'n bosibl mai fersiwn mwy newydd o'r stori honno yw'r stori hon. Pwy a wŷyr?





Y llygoden fawr a'r broga



Y gwningen, y wenci a'r gath





Y paun a'r bиден



Y cathod a'r caws



Yr ysgyfarnog a'r crwban



Y paun a'r crychydd



Y ci a'i adlewyrchiad



Y llwynog a'r creyr



Y beiliog a'r em



Y llwynog a'r fran





Y dylluan a'r adar



Y brogan cwac



Y grawnafal, y goeden afal a'r fiaren